# Darparu ar gyfer plant sy’n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn Ysgolion Gwynedd

# Providing for children who are looked after by Local Authorities in Gwynedd Schools

***Ysgol Tryfan***

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:**
***Signed on behalf of the Chair of Governors:***

**Dyddiad Cymeradwyo:** **Ebrill 2025**
***Date of Approval:***

**Dyddiad Adolygu:** **Ebrill 2028**
***Review Date:***

## 1. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â disgyblion sydd mewn gofal ac yn mynychu ysgol neu unrhyw ddarpariaeth addysgol amgen arall yng Ngwynedd

## 2. Cyd-destun

Mae consensws bellach ymhlith ymchwilwyr, llunwyr polisi, a'r bobl ifanc sy'n destun y polisi, eu bod yn wynebu nifer o broblemau yn cynnwys:

2.1 Profiadau o Drawma a Cholled

2.2 Bregusrwydd emosiynol

2.3 Trafferthion ymddygiadol

2.4 Diffyg gwytnwch a bod yn agored i niwed

2.5 Gorbryder

2.6 Unigrwydd

2.7 Amhariad ar eu haddysg cyn-ofal

2.8 Trafferthion cyfarwyddo gyda newid ysgol

2.9 Diffyg hunan-gymhelliant, cyrhaeddiad a diffyg gwireddi potensial yr unigolyn.

## 3. Diffiniad o blentyn mewn gofal

Diffinnir plentyn mewn gofal fel plentyn sy'n derbyn lleoliad gofal ar sail cynllun gofal Awdurdod Lleol, boed hynny'n wirfoddol neu'n orfodol.

3.1 Lleolir plant sy'n destun i orchymyn gofal mewn lleoliadau maeth, a phreswyl neu'n gynyddol yn ôl yn eu cartrefi mewn lleoliad gyda rhiant neu gyda theulu neu ffrindiau.

3.2 Yn ysgolion Gwynedd ceir plant sydd mewn gofal i Awdurdod Gwynedd

3.3 Yn ogystal, ceir plant yn ysgolion Gwynedd sy'n destun i gynlluniau gofal Awdurdodau eraill **- mae rhain hefyd angen cael eu cynnwys fel plant mewn gofal yn ysgolion Gwynedd**

## 4. Datganiad o fwriad

Bydd Adran Addysg Gwynedd yn unol â'i dyletswydd statudol yn cynghori a chynorthwyo ysgolion i ddiogelu ac hyrwyddo lles plentyn sy'n derbyn gofal ac yn arbennig hyrwyddo cyflawniad addysgol y plentyn

## 5. Fframwaith Statudol

5.1 Deddf Plant 2004
5.2 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
5.3 Deddf Safonau Gofal 2000
5.4 Deddf Addysg 1996
5.5 Deddf Addysg (Cymru) 2014
5.6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## 6. Egwyddorion Sylfaenol

6.1 Mae gan bob plentyn sydd mewn gofal yng Ngwynedd yr hawl i gael mynediad i addysg cyn ysgol a holl wasanaethau addysg statudol a derbyn pob cyfle a chymorth i ddatblygu'n addysgol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol.

## 7. Dyletswydd Adran Addysg Gwynedd

7.1 Sicrhau fod pob plentyn sydd mewn gofal yng Ngwynedd yn cael mynediad i'r addysg briodol ar gyfer ei allu a'i ddawn er mwyn gwireddi ei botensial

7.2 Mewn cydweithrediad â GwE, sicrhau hyfforddiant penodol arbenigol i athrawon fydd yn hyrwyddo cynhwysiant, lles a chyflawniad addysgol pob plentyn sydd mewn gofal yng Ngwynedd.

7.3 Rhannu arferion da yn y maes rhwng ysgolion y sir er mwyn deall yn well anghenion y grwp bregus hwn o ddysgwyr.

7.4 Sicrhau fod pob Ysgol a sefydliad addysgol yng Ngwynedd yn clustnodi person dynodedig ar gyfer plant mewn gofal.

7.5 Enwi swyddog oddi fewn i Adran Addysg Gwynedd sydd â chyfrifoldeb am gadw golwg cyffredinol ar gynnydd, datblygiad a phresenoldeb y plant sydd mewn gofal yng Ngwynedd.

7.6 Bydd cynnydd addysgol pob disgybl yng ngofal yr awdurdod yn cael ei fonitro yn yr adolygiad statudol o drefniadau gofal a'r cynllun Addysg Personol (PEP) yn cael ei drafod ymhob adolygiad.

7.7 Bydd yr Adran Addysg yn ymateb i'r disgwyliad arnynt i sicrhau lleoliad addysgol ar gyfer disgybl mewn gofal o fewn 20 diwrnod ysgol fan bellaf, lle na fydd cadw at yr ugain diwrnod yn bosibl, byddent yn darparu addysg dros dro, nes datrys y sefyllfa.

7.8 Bydd yr Adran Addysg yn sicrhau bod y plant yng ngofal yr awdurdod yn rhan o unrhyw drafodaeth a phenderfyniadau ynglŷn â'u haddysg. Bydd eu barn yn cael ei ystyried a'i gofnodi'n ofalus yn y Cynllun Addysg Personol (PEP)

7.9 Asesu pa agweddau o gymorth addysg fydd eu hangen ar blant ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu ac os ydynt yn blant ar Ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (Deddf AAA) neu o fewn blynyddoedd trosiannol y Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol(2018) a chyda Cynllun Addysg Unigol, parheir i'w cefnogi.

7.10 Bydd pob plentyn mewn gofal yn cael i cyfle i gyfranogi o weithgareddau tu allan i oriau ysgol a drefnir, gan gynnwys rhai academaidd, diwylliannol, chwaraeon a hamdden, er mwyn lledu profiadau y disgyblion a chodi eu hyder a'u hunan ddelwedd.

## 8. Dyletswyddau Corff Llywodraethol Ysgol

8.1 Dylai corff Llywodraethol ysgolion sicrhau bod polisi gweithredol, cyfredol ganddynt ar gyfer plant mewn gofal. Bydd y polisïau gorau yn cynnwys:

- Dynodi aelod o staff i dderbyn cyfrifoldeb am y maes
- Trefn derbyn gwybodaeth parthed niferoedd sydd yn derbyn gofal
- Trefn sicrhau bod y plant mewn gofal yn cael cyfle cyfartal yn yr ysgol
- Sicrhau bod person dynodedig ar gyfer plant mewn gofal yn rhan o drefn yr ysgol
- Sicrhau awyrgylch bositif tu fewn i'r ysgol
- Sicrhau trefn effeithiol o fonitro cynnydd addysgol a threfn effeithiol i ddelio â thangyflawni.
- Monitro cynnydd plant mewn gofal yn yr ysgol o'u cymharu â thargedau cyrhaeddiad Llywodraeth Cymru.

8.2 Mae gan Llywodraethwyr Ysgolion ddyletswydd i gyfarfod â gofynion y Ddeddf Plant 2004 a'r Deddfau Addysg a Llesiant a nodwyd uchod.

## 9. Cyfrifoldebau a dyletswyddau Penaethiaid Ysgolion

9.1 Sicrhau bod aelod o staff wedi ei ddynodi i dderbyn cyfrifoldeb penodol am ddisgyblion sydd mewn gofal yn yr ysgol.

9.2 Sicrhau bod yr ysgol yn monitro absenoldeb disgyblion sydd yng ngofal yr awdurdod lleol, a chyflwyno adroddiad i'r awdurdod addysg.

9.3 Sicrhau awyrgylch ac ethos gadarnhaol parthed disgyblion yng ngofal yr awdurdod, gan greu ysgol ble mae rhagfarn ac agweddau stereoteipio negyddol am disgyblion sydd mewn gofal yn cael ei herio a'u diddymu.

9.4 Bod yn ymwybodol o sensitifrwydd gwahardd disgyblion sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol, gan gydnabod yr angen i blant dderbyn addysg di-fwlch.

9.5 Sicrhau bod unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu darparu mewn cydweithrediad a'r Cyd-gysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ysgol.

10. **Cynllun Addysg Personol – y "CAP"** neu'r **"PEP"**

10.1 Rhaid sicrhau bod pob disgybl sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol yn Ysgolion Gwynedd yn meddu ar Gynllun Addysg Personol (PEP). Mae'r "PEP" yn gorwedd o fewn Cynllun Gofal y plentyn ac yn gyfrifoldeb ar y gweithiwr cymdeithasol a dynodir i weithio gyda'r plentyn.

10.2 Mae'r PEP wedi ei lunio fel bo cyfrifoldeb ar yr Ysgol i'w gwblhau , ar ôl ymgynghori a gyda chydweithrediad y plentyn, y rhieni/ gofalwyr, y gweithiwr cymdeithasol ac asiantaethau priodol.

10.3 Dylid cytuno ar gynnwys y PEP cyn gynted ag y bo modd ,ac o fewn 20 diwrnod fan bellaf ar ôl i'r plentyn fynd i ofal neu i ysgol newydd.

10.4 Mae'r PEP yn rhan o ddogfen statudol ac yn brawf o fwriad yr Ysgol i weithredu i ddarparu'r addysg fwyaf priodol i'r unigolyn mewn gofal.

10.5 Dylid adnewyddu'r PEP bob 6 mis a'i gyflwyno bob tro mae Adolygiad statudol ar y plentyn yn digwydd.

10.6 Gyda'r PEP yn awr yn weithredol ar lein trwy www.CDUarlein.cymru, bydd disgwyl cadw'r ddogfen "yn fyw" fel bo modd ychwanegu ati ar unrhyw amser, a rhoi cyfle i bawb sy'n gweithredu ar ran y plentyn gael mynediad at ei chynnwys

10.7 Lle'n bosibl, dylid ceisio galw cyfarfod yn yr ysgol i adolygu'r PEP yn flynyddol.

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: _______________________________________________________**

**Dyddiad: _____________________________**